Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol ar Addasrwydd i Ymarfer 2016–2017

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol ar Addasrwydd i Ymarfer 2016–2017

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50 (2) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Gorffennaf 2017

© **Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2017)**

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol neu asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a nodi teitl y ddogfen. Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd priod ddeiliad yr hawlfraint.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r Nursing and Midwifery Council, 23 Portland Place, London W1B 1PZ

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk)

Print ISBN 9781474146715
Gwe ISBN 9781474146722

ID 15061708  07/17

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

## Cynnwys


Rhagair ........ 5

Cyflwyniad ........ 6

Pwy ydym a'r hyn a wnawn ........ 6

Amddiffyn y cyhoedd ........ 7

Ein cofrestr ........ 7

Addasrwydd i ymarfer ........ 7

Sut y caiff pryderon eu codi ........ 7

Pryderon y gallwn ac na allwn eu hystyried ........ 8

Sut rydym yn ymdrin â phryderon a godir ........ 9

Pwy yw ein penderfynwyr ........ 9

Y camau a gymerwn os bydd nyrs neu fydwraig yn anaddas i ymarfer ........ 10

Gwella ein heffeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ........ 11

Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr ........ 11

Gwneud penderfyniadau ar y cam cyntaf ........ 12

Recordio Sain Digidol ........ 12

Cydymffurfio â gorchymyn sylweddol ........ 13

Adolygu gorchmynion sylweddol ........ 13

Costau gwrandawiadau ........ 13

Cydraddoldeb ac amrywiaeth ........ 13

Crynodeb ystadegol 2016–2017 ........ 14

Nifer y cwynion ........ 14

Pryderon yn ôl math o gofrestriad ........ 15

Asesiad cychwynnol ........ 16

Gweithredu ar fyrder i amddiffyn y cyhoedd ........ 17

Perfformiad gorchymyn interim ........ 17

Canlyniadau gorchmynion interim ........ 18

Ymchwiliadau ..... 19
Penderfyniadau Archwilwyr Achos ..... 19
Penderfyniadau'r Pwyllgor Ymchwilio ..... 20
Adolygu penderfyniadau dim achos i'w ateb ..... 20
Cofnodion twyllodrus neu anghywir ar y gofrestr 2016-2017 ..... 21
Gwrandawiadau ..... 21
Canlyniadau gwrandawiadau ..... 22
Dileu gwirfoddol ..... 23
Apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau ..... 23
Adfer enw nyrs neu fydwraig i'r gofrestr ..... 24
Datrys achosion yn gyflym (DPA 15 mis) ..... 25
Ffocws ar gyfer y dyfodol ..... 26
Adran 60 ..... 26
Pryderon Rheoleiddiol ..... 27
Codio honiadau a lleoliadau cyflogwyr ..... 27
Cynadleddau achos ..... 28

## Rhagair

Mae'r NMC yn bodoli i amddiffyn y cyhoedd drwy sicrhau bod nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr yn ymarfer yn ddiogel ac yn unol â safonau proffesiynol. Mae'r mwyafrif helaeth o'n cofrestryddion yn gwneud hynny. Yn 2016-2017, codwyd pryderon am lai nag 1 y cant o'n cofrestryddion. Mewn achosion o'r fath, mae'n bwysig ein bod yn gweithredu'n gyflym i ddatrys y pryderon yn gymesur ac yn deg er mwyn sicrhau, os bydd cofrestrydd yn parhau i ymarfer, ei bod yn gwneud hynny'n ddiogel ac yn briodol.

Roedd nifer y pryderon a godir gyda ni yn parhau i gynyddu, ond nid mor gyflym ag y gwnaethant mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd ein ffynonellau atgyfeirio yn parhau'n gyson, gyda chyflogwyr yn cyfrannu bron 40 y cant at gyfanswm nifer ein hatgyfeiriadau, a chleifion a'r cyhoedd yn ychwanegu 28 y cant arall.

Ein nod yw cyrraedd y canlyniad sy'n amddiffyn y cyhoedd orau cyn gynted â phosibl. Yn 2016–2017 gwnaethom gryfhau ein proses gwneud penderfyniadau ar y cam cyntaf, gan gau 60 y cant o achosion bryd hynny. Rydym hefyd wedi cymryd camau breision gyda'n Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr sydd bellach wedi cwrdd â phob Ymddiriedolaeth a Bwrdd GIG yn y pedair gwlad ac rydym yn parhau i weithio gyda nhw er mwyn helpu i sicrhau bod pryderon sy'n cael eu hatgyfeirio atom yn briodol.

Wrth reoli ein llwyth achosion rydym wedi canolbwyntio ein hegni a'n hadnoddau eleni ar leihau ei faint a blaenoriaethu achosion hŷn. Pan fydd y cyhoedd mewn perygl uniongyrchol a difrifol mae'n bwysig ein bod yn gweithredu'n brydlon. Gwnaethom ragori'n gyson ar ein targed o osod 80 y cant o orchmynion interim o fewn 28 diwrnod, gan orffen y flwyddyn gyda chyfartaledd o 91 y cant.

Roedd yn bleser sicrhau newidiadau pwysig i'n deddfwriaeth o'r diwedd. Bydd y rhain yn ein helpu i ddatrys achosion yn gynt er budd y cyhoedd; canolbwyntio ar yr achosion mwyaf difrifol; a symleiddio rhannau o'n prosesau. Er eu bod yn hirddisgwyliedig, mae'r newidiadau hyn yn gwneud cryn dipyn i gefnogi ein strategaeth i fod yn rheoleiddiwr blaenllaw a dynamig. Edrychwn ymlaen at ymgysylltu ymhellach â'r Llywodraeth ynglŷn â'r angen dybryd am ddiwygio rheoleiddiol mwy radical yn y sector.

Y Fonesig Janet Finch
Cadeirydd, NMC
5 Gorffennaf 2017

Jackie Smith
Prif Weithredwr a Chofrestrydd, NMC
5 Gorffennaf 2017

# Cyflwyniad

## Pwy ydym a'r hyn a wnawn

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yw'r rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth annibynnol i Gymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Ein rôl yw amddiffyn y cyhoedd ac rydym yn atebol i'r Senedd, drwy'r Cyfrin Gyngor.

Ein rôl ers y dechrau fu amddiffyn y cyhoedd. Amlygwyd hyn hyd yn oed yn fwy gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diogelwch ac Ansawdd) 2015. Amcan cyffredinol y Cyngor wrth arfer ei swyddogaethau yw amddiffyn y cyhoedd, sy'n cynnwys yr amcanion canlynol:

- Amddiffyn, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd.
- Hybu a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth.
- Hybu a chynnal safonau proffesiynol priodol aelodau'r proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth.

Ein cyfrifoldebau rheoleiddio yw:

- Cadw cofrestr o bob nyrs a bydwraig sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru.
- Pennu safonau addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad fel y gall nyrsys a bydwragedd ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel yn gyson drwy gydol eu gyrfaoedd.
- Cymryd camau i ymdrin ag unigolion yr amheuir eu priodoldeb neu eu gallu i roi gofal diogel, fel y gall y cyhoedd ymddiried yn yr ansawdd a safonau gofal a roddir gan nyrsys a bydwragedd.

Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith rydym yn ei wneud i amddiffyn y cyhoedd ar gael ar ein gwefan: www.nmc.org.uk/about-us/

# Amddiffyn y cyhoedd

## Ein cofrestr

Rydym yn cynnal cofrestr o nyrsys a bydwragedd y caniateir iddynt ymarfer yn gyfreithlon yn y DU. Dim ond nyrs neu fydwraig sy'n cyrraedd ein safonau a all gael ei chynnwys ar y gofrestr, ac aros arni. Dim ond ni all gymryd camau i atal nyrs neu fydwraig rhag ymarfer yn y DU drwy ei gwahardd neu ei thynnu oddi ar y gofrestr neu drwy gyfyngu ar y ffordd y mae'n ymarfer.

**Ar 31 Mawrth 2017, roedd 690,773 o nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr. Mae hyn yn ostyngiad o 0.27 y cant o gymharu â'r nifer a oedd ar y gofrestr ar 31 Mawrth 2016.**

Mae ein cofrestr ar gael i'r cyhoedd a gall unrhyw un weld a yw nyrs neu fydwraig wedi'i chofrestru ar hyn o bryd, neu os yw eu hymarfer wedi'i gyfyngu mewn unrhyw ffordd drwy fynd i www.nmc-uk.org.uk/search-the-register/ neu ein ffonio neu ysgrifennu atom.

## Addasrwydd i ymarfer

Rhaid i bob nyrs a bydwraig gymwysedig ddilyn ein cod proffesiynol, *Y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd* (NMC 2015). Mae'r Cod yn amlinellu'r safonau proffesiynol y mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd eu cynnal er mwyn cael eu cofrestru a chadw eu cofrestriad yn y DU. Mae'r Cod ar gael ar ein gwefan: www.nmc.org.uk/code.

Mae bod yn addas i ymarfer yn golygu bod gan nyrs neu fydwraig y sgiliau, y wybodaeth, yr iechyd a'r cymeriad i wneud ei gwaith yn ddiogel ac yn effeithiol. Drwy ailddilysu, mae'n ofynnol i bob nyrs a bydwraig ddangos yn rheolaidd ei bod yn ymarfer yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r safonau a nodwyd yn y Cod yn llawn.

Os oes gan unrhyw un unrhyw bryderon am addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer, gallant eu codi gyda ni a byddwn yn penderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd i amddiffyn y cyhoedd. Ym mhob achos, ein nod yw cyrraedd y canlyniad sy'n diogelu budd y cyhoedd orau cyn gynted â phosibl.

## Sut y caiff pryderon eu codi

Gall unrhyw un ddweud wrthym ar unrhyw adeg os oes ganddo bryderon am addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer. Gallwn hefyd agor achosion ein hunain os credwn fod angen gwneud hynny.

Yn nodweddiadol, rydym yn derbyn cwynion gan y canlynol:

- claf neu rywun sy'n defnyddio gwasanaethau nyrs neu fydwraig

- aelod o'r cyhoedd
- cyflogwr neu reolwr y nyrs neu'r fydwraig
- yr heddlu
- gall nyrs neu fydwraig atgyfeirio ei hun
- rheoleiddwyr gofal iechyd eraill

Mae rhagor o wybodaeth am atgyfeirio ar gael ar ein gwefan: www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/concerns-complaints-referrals/

## Pryderon y gallwn ac na allwn eu hystyried

Gallwn ond ystyried pryderon am nyrsys a bydwragedd sydd ar ein cofrestr, ac ni allwn ystyried pryderon am weithwyr gofal iechyd eraill nac aelodau o'r cyhoedd. Os byddwn yn derbyn pryderon am weithwyr gofal iechyd eraill (neu unigolion eraill nad ydynt yn cael eu rheoleiddio) rydym yn eu hatgyfeirio at eu rheoleiddwyr eu hunain neu at yr heddlu os yw'n briodol gwneud hynny.

Rydym yn ystyried pryderon ynghylch addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer. Ein rôl yw penderfynu a yw pryder yn golygu bod angen cymryd camau gweithredu rheoleiddiol i amddiffyn y cyhoedd. Mae'r mathau o bryderon rydym yn eu hystyried yn cynnwys y canlynol:

- camymddwyn (gan gynnwys camymddwyn clinigol)
- diffyg cymhwysedd
- collfarnau troseddol
- salwch difrifol
- ddim yn ddigon rhugl yn Saesneg

Rydym hefyd yn ymchwilio i achosion lle mae'n ymddangos bod rhywun wedi cael mynediad i'n cofrestr drwy dwyll neu'n anghywir.

Dylai unrhyw bryderon eraill am nyrs neu fydwraig gael eu datrys gan gyflogwr yr unigolyn neu'r awdurdod priodol.

## Sut rydym yn ymdrin â phryderon a godir

Pan godir pryder gyda ni, byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Rydym yn gwneud asesiad cychwynnol o'r honiad i weld a allwn nodi nyrs neu fydwraig gofrestredig, asesu difrifoldeb y mater, a phenderfynu a oes angen gweithredu ar frys. Os byddwn o'r farn nad yw'r honiad, ar ei ben ei hun, yn ddigon difrifol i gymryd camau rheoleiddio, gallwn gysylltu â chyflogwr y nyrs neu'r fydwraig i gadarnhau a oes ganddo unrhyw bryderon ynglŷn ag addasrwydd yr unigolyn i ymarfer. Os nad oes unrhyw bryderon, gall yr achos fel arfer gael ei gau.
- Lle y bo angen, byddwn yn ymchwilio i gasglu'r dystiolaeth sydd ei hangen i wneud asesiad llawn o'r honiad.
- Ar ddiwedd yr ymchwiliad, os bydd yr Archwilwyr Achos neu'r Pwyllgor Ymchwilio yn canfod bod achos i'w ateb, byddwn yn cynnal gwrandawiad neu gyfarfod er mwyn gwneud penderfyniad terfynol a phenderfynu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd.
- Mewn rhai amgylchiadau, a dim ond os byddwn yn fodlon ei fod er budd y cyhoedd i wneud hynny, byddwn yn caniatáu i nyrs neu fydwraig dynnu ei henw ei hun yn wirfoddol o'n cofrestr heb fod angen gwrandawiad na chyfarfod.

## Pwy yw ein penderfynwyr

Gwneir penderfyniadau am ein hachosion gan aelodau annibynnol o banel o un o'n pwyllgorau ymarfer:

- Pwyllgor Ymchwilio
- Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd
- Pwyllgor Iechyd

Caiff panelwyr eu recriwtio a'u penodi drwy broses agored a thryloyw a oruchwylir gan y Bwrdd Penodiadau. Un o bwyllgorau'r Cyngor yw'r Bwrdd Penodiadau. I sicrhau ei annibyniaeth, nid yw ei aelodau yn aelodau o'r Cyngor hefyd.

Yn 2017 cyflwynir deddfwriaeth newydd i alluogi'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd a'r Pwyllgor Iechyd i gyfuno i ffurfio Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer unigol a fydd yn gallu gwneud penderfyniadau ar bob achos sy'n cael ei anfon i wrandawiad terfynol. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am y pwyllgor hwn yn adran ffocws ar gyfer y dyfodol yr adroddiad hwn.

I raddau helaeth, mae Archwilwyr Achos wedi disodli swyddogaeth y Pwyllgor Ymchwilio wrth benderfynu, ar ddiwedd yr ymchwiliad, a ddylid atgyfeirio achos at wrandawiad terfynol neu gyfarfod. Mae Archwilwyr Achos yn aelodau o staff sy'n arfer eu pwerau gwneud penderfyniad yn annibynnol.

Mae rhagor o wybodaeth am ein penderfynwyr ar gael ar ein gwefan: www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/hearings-and-outcomes/our-panels-case-examiners

## Y camau a gymerwn os bydd nyrs neu fydwraig yn anaddas i ymarfer

Mewn gwrandawiad terfynol neu gyfarfod, bydd panel o benderfynwyr annibynnol yn ystyried a yw addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer yn ddiffygiol. Bydd y panel yn cael tystiolaeth ac yn clywed gan dystion a'r nyrs neu'r fydwraig y gwnaed yr honiadau yn ei herbyn. Bydd y panel yn penderfynu a yw addasrwydd i ymarfer y nyrs neu'r fydwraig yn ddiffygiol ar hyn o bryd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd y panel yn penderfynu nad oes angen gwneud dim o ystyried holl amgylchiadau'r achos. Os bydd y panel yn penderfynu bod angen cymryd camau, gall ddewis un o'r gorchmynion canlynol:

- Gorchymyn rhybudd
- Gorchymyn amodau ymarfer
- Gorchymyn atal dros dro
- Gorchymyn dileu

Mae rhagor o wybodaeth am y gorchmynion hyn ar gael ar ein gwefan: www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/hearings-and-outcomes/restrictions-sanctions/.

## Gwella ein heffeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

Yn ystod 2016-2017, rydym wedi gwella ein ffyrdd o weithio yn sylweddol, sy'n cefnogi ein nod o gyrraedd y canlyniad sy'n diogelu budd y cyhoedd orau cyn gynted â phosibl ym mhob achos.

### Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr

Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr yn gweithio gyda chyflogwyr ym maes gofal iechyd i sicrhau bod atgyfeiriadau nyrsys a bydwragedd yn briodol, yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ac yn amserol ac effeithlon. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr wedi parhau i gwrdd â chyflogwyr nyrsys a bydwragedd yn y 279 o ymddiriedolaethau a byrddau'r GIG yn y DU a meithrin cydberthnasau â nhw, ac mae wedi ehangu'r gwasanaeth i gynnwys dros 20 o ddarparwyr gofal iechyd annibynnol mwyaf y sector yn y DU.

Sefydlwyd llinell gymorth NMC i gyflogwyr i drafod pryderon unigol â chynghorydd rheoleiddio sydd â dealltwriaeth a phrofiad rheoleiddiol arbenigol a manwl.

Derbyniwyd tua 2,000 o alwadau yn ystod 2016–2017 a rhoddwyd cyngor ar amrywiaeth eang o faterion. Roedd y rhan fwyaf o alwadau gan gyflogwyr yn ceisio cyngor ar atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer posibl. Ym mhob achos mae cynghorwyr rheoleiddio yn ystyried amgylchiadau'r achos yn ofalus cyn rhoi cyngor ar b'un a yw atgyfeirio yn angenrheidiol neu nad yw'r achos yn bryder rheoleiddio a dylid ei reoli'n lleol.

O blith y galwadau gan gyflogwyr a dderbyniwyd gan y cynghorwyr rheoleiddio yn 2016–2017:

- Cynghorwyd 49% i atgyfeirio
- Cynghorwyd 25% i beidio ag atgyfeirio
- Cynghorwyd 26% i gwblhau'r ymchwiliad lleol cyn penderfynu a yw atgyfeirio yn angenrheidiol

Mae'r gwasanaeth wedi cael ei groesawu'n fawr gan gyflogwyr ac mae arolygon boddhad cwsmeriaid yn nodi'r canlynol:

- Mae 95% yn cytuno y bydd y Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr o fudd iddynt yn eu rôl
- Byddai 94% yn argymell y Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr i gydweithiwr

Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr hefyd yn gweithio gyda sefydliadau eraill i ddeall tueddiadau yn well a chael darlun gwell o'r dirwedd rheoleiddio. Cyflawnir hyn drwy rannu gwybodaeth a nodi tueddiadau a materion o fewn lleoliadau gofal iechyd

penodol. Drwy gyfnewid gwybodaeth gall y Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr helpu ein tîm arwain i lywio cyfeiriad strategol y sefydliad a darparu gwybodaeth amserol ar gyfer ymdrin ag achosion ac amddiffyn y cyhoedd.

## Gwneud penderfyniadau ar y cam cyntaf

Pan fyddwn yn derbyn pryder y tro cyntaf, bydd tîm o gyfreithwyr yn sgrinio'r holl atgyfeiriadau i benderfynu a oes angen ymyrraeth reoleiddiol ai peidio ar y pryder a godwyd. Os na, gellir cau'r achos. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i gryfhau ein penderfyniadau ar gam cynnar drwy wneud y canlynol:

- Gwella ein dull asesu risg sgrinio, gan gynnwys hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer penderfynwyr
- Meincnodi'r penderfyniadau am atgyfeiriadau a wnaed drwy'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr
- Cynyddu ffocws rheoli drwy greu timau llai
- Gwella'r broses o nodi achosion proffil uchel ar gam cynnar, a chynyddu gallu ein tîm sy'n delio â'r achosion hyn

Rydym hefyd wedi diweddaru ein canllawiau ar gyfer y cyhoedd a chyflogwyr ar atgyfeirio. Mae'r canllawiau hyn ar gael ar ein gwefan yn: https://www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/concerns-complaints-and-referrals/make-a-referral/

Mae canllawiau pellach ar asesiad rhagarweiniol honiadau ar gael ar ein gwefan: www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/concerns/preliminary-consideration-of-allegations-guidance.pdf

Mae'r newidiadau hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa well i nodi a chau achosion nad ydynt yn codi pryderon am ddiogelwch y cyhoedd cyn gynted â phosibl a chanolbwyntio ein hadnoddau ar ymchwilio achosion difrifol yn unig y mae angen cymryd camau rheoleiddio mewn perthynas â nhw.

## Recordio Sain Digidol

Ym mis Rhagfyr 2016 gwnaethom gyflwyno system recordio sain ddigidol newydd yn ein canolfan gwrandawiadau yn Stratford. Mae'r system newydd hon wedi arbed £50,000 yn chwarter olaf 2016–2017 ac rydym yn amcangyfrif y bydd yn arbed £600,000 yn 2017–2018 wrth i ni ddileu'r angen am ysgrifenwyr llaw-fer ar y safle. Mae'r system yn ein cysoni â rheoleiddwyr gofal iechyd eraill, ac mae wedi gwella ein diogelwch data, ein heffeithlonrwydd ac ansawdd ein trawsgrifiadau.

## Cydymffurfio â gorchymyn sylweddol

Gellir gosod gorchymyn sylweddol ar ddiwedd gwrandawiad addasrwydd i ymarfer gan banel. Cyflwynodd y tîm sy'n rheoli adolygiadau'r gorchmynion hyn gynllun peilot sydd wedi'i anelu at gynyddu diogelwch y cyhoedd drwy weithio gyda chofrestryddion, cyflogwyr a chynrychiolwyr i sicrhau cydymffurfiaeth â gorchmynion amodau ymarfer.

Mae'r cynllun peilot wedi cael ei groesawu gan gofrestryddion, cynrychiolwyr a chyflogwyr ac mae'r adborth a gafwyd hyd yn hyn yn dangos bod nodi disgwyliadau o ddechrau gorchymyn wedi bod yn ddefnyddiol i gofrestryddion.

## Adolygu gorchmynion sylweddol

Yn 2016 gwnaethom gyflwyno'r broses o adolygu gorchymyn sylweddol mewn cyfarfod yn hytrach na gwrandawiad. Cynhelir budd y cyhoedd drwy gydol y broses hon, gan fod yr ystod lawn o opsiynau ar gael i'r panel a chyhoeddir canlyniadau cyfarfodydd yn yr un ffordd â chanlyniadau gwrandawiadau. Gan fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn breifat, gyda chytundeb y cofrestrydd, nid oes angen nodi dyddiad, amser na'r lleoliad lle y cânt eu cynnal, ac nid oes angen cyfnod rhybudd. Mae 345 o achosion wedi cael eu hadolygu mewn cyfarfodydd yn hytrach na gwrandawiadau, ac mae hyn wedi arbed dros £345,000 drwy reoli ffioedd presenoldeb panelwyr, aseswyr cyfreithiol ac ysgrifenwyr llaw-fer mewn ffordd effeithiol.

## Costau gwrandawiadau

Drwy arbedion effeithlonrwydd i'n prosesau yn 2016–2017 lleihaodd cost gyfartalog gwrandawiad o £25,000 i £18,000. Mae'r gostyngiad hwn mewn cost wedi rhyddhau adnoddau a'n helpu i gynyddu nifer y penderfyniadau terfynol a wneir o 960 yn 2015-2016 i 1,513 eleni.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Gwnaethom gomisiynu Prifysgol Greenwich i gyflawni gwaith ymchwil er mwyn helpu i nodi'r graddau y caiff nyrsys a bydwragedd duon a lleiafrifoedd ethnig eu cynrychioli mewn achosion addasrwydd i ymarfer. Gwnaeth yr adroddiad nifer o ganfyddiadau, y mwyaf sylweddol oedd bod nyrsys a bydwragedd duon a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio atom na'u cymheiriaid gwyn. Nododd mai cyflogwyr oedd y ffynhonnell fwyaf o atgyfeiriadau ac mai'r atgyfeiriadau hyn oedd y rhai mwyaf tebygol o ddatblygu i gamau hwyrach y broses addasrwydd i ymarfer. Fodd bynnag, mae nyrsys duon a lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o gael eu dileu o'r gofrestr neu eu gwahardd na nyrsys a bydwragedd gwyn. Rydym yn cwrdd â grwpiau cleifion, cyflogwyr, cyrff proffesiynol a rheoleiddwyr eraill i ysgogi newidiadau cadarnhaol yn y maes pwysig hwn ac rydym wedi ymrwymo i ailadrodd yr ymchwil unwaith y bydd cylch cyntaf ailddilysu wedi'i gwblhau yn 2019. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar ein gwefan: www.nmc.org.uk.

# Crynodeb ystadegol 2016–2017

Mae ein data eleni wedi'u cysoni â'r data rydym yn eu darparu i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol. Rydym yn adrodd yn ôl rhif achos lle nodwyd rhif adnabod personol. Mae hyn yn golygu os bod gan gofrestrydd mwy nag un achos gyda ni, mae'r holl achosion sydd wedi'u priodoli i'r cofrestrydd hwnnw bellach wedi'u cyfrif. Yn y gorffennol rydym wedi cyhoeddi nifer y bobl sy'n mynd drwy ein proses ac felly pan oedd gan gofrestrydd fwy nag un achos agored gyda ni, dim ond un oedd yn cael ei gyfrif.

Mantais y dull hwn yw mwy o gysondeb rhwng ffynonellau gwybodaeth cyhoeddus am ein perfformiad, a chreu darlun mwy cywir o'n llwyth gwaith. Yr anfantais yw nad yw data cymharol ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o adrannau'r adroddiad hwn ar gyfer eleni yn unig. Byddwn yn ailgyflwyno data cymharol yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

## Nifer y cwynion

**Yn 2016–gwnaethom dderbyn 5,476 o atgyfeiriadau newydd, sy'n gynnydd o 1 y cant ar y 5,415 o atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn 2015-2016 a chynnydd llawer is na'r hyn rydym wedi ei weld yn y pum mlynedd diwethaf. Mae cyfanswm nifer y pryderon a dderbyniwyd yn cynrychioli 0.8 y cant o gyfanswm nifer y nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr, neu tua 8 atgyfeiriad**

Mae'r tabl isod yn dangos ffynhonnell y pryderon a dderbyniwyd y llynedd.

**Tabl 1: Ffynhonnell y pryderon a atgyfeiriwyd atom yn 2016–2017**

| Pwy wnaeth atgyfeirio pryderon atom | Nifer y pryderon newydd | Canran o'r pryderon |
|---|---:|---:|
| Claf/cyhoedd | 1,537 | 28 |
| Hunanatgyfeiriad | 572 | 10 |
| Cyflogwr | 2,153 | 39 |
| Cofrestrydd NMC | 311 | 6 |
| Cofrestrydd arall | 147 | 3 |
| Rheoleiddiwr arall | 69 | 1 |
| Atgyfeiriwr yn anhysbys | 171 | 3 |
| Unrhyw hysbyswr arall | 516 | 10 |
| **Cyfanswm** | **5,476** | **100%** |

Mewn 705 o'r pryderon a dderbyniwyd y llynedd nid oeddem yn gallu nodi nyrs na bydwraig gofrestredig. Daeth rhai o'r atgyfeiriadau hyn ar ddiwedd ein cyfnod adrodd a byddant yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf. Roedd eraill yn atgyfeiriadau a wnaed lle nad oedd gennym awdurdod i weithredu. Mae'r tabl nesaf yn dangos dadansoddiad o'r 4,771 o achosion roeddem yn gallu eu hagor y llynedd yn ôl gwlad y cyfeiriad cofrestredig.

**Tabl 2: Atgyfeiriadau yn ôl gwlad y cyfeiriad cofrestredig 2016–2017**

| Gwlad | Canran o'r gofrestr | Nifer y cwynion | Canran o'r pryderon |
|---|---|---|---|
| Lloegr | 79 | 3814 | 80 |
| Yr Alban | 10 | 433 | 9 |
| Cymru | 5 | 308 | 6 |
| Gogledd Iwerddon | 3 | 128 | 3 |
| Tramor ac UE | 3 | 87 | 2 |
| Anhysbys | 0 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **4,771** | **100%** |
| Atgyfeiriadau nas nodwyd | | 705 | |
| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau** | | **5,476** | |

## Pryderon yn ôl math o gofrestriad

Gall unigolyn fod wedi ei gofrestru gyda ni fel nyrs, neu fel bydwraig, neu gofrestriad deuol.

**Tabl 3: Atgyfeiriadau yn ôl math o gofrestriad 2016-2017**

| Math o gofrestriad | Canran o'r gofrestr | Nifer yr atgyfeiriadau newydd | Canran o'r holl atgyfeiriadau |
|---|---|---|---|
| Nyrs | 90 | 4,383 | 92 |
| Bydwraig | 5 | 143 | 3 |
| Deuol | 5 | 245 | 5 |
| **Cyfanswm** | **100%** | **4,771** | **100%** |

Ym mis Tachwedd 2015, gwnaethom ddechrau cofnodi maes ymarfer (h.y. nyrsio neu fydwreigiaeth) y nyrs/bydwraig gyda chofrestriad deuol ar yr adeg pan roddwyd gwybod i ni am y digwyddiad. Mae hyn yn ein galluogi i nodi'r maes ymarfer sydd dan amheuaeth gan y rheini sydd wedi'u cofrestru fel nyrs a bydwraig. Rydym bellach yn gallu rhannu'r maes lle roedd yr unigolyn yn ymarfer o asesiad cychwynnol yr atgyfeiriad i gam Archwilydd Achos ein proses. Dros amser bydd y data hyn yn dod yn fwy cynhwysfawr a hefyd yn cwmpasu gwrandawiadau terfynol.

Mae'r tabl nesaf yn dangos dadansoddiad o bryderon a dderbyniwyd am gofrestryddion sydd â chofrestriad deuol. Pan na fydd y digwyddiad a atgyfeiriwyd atom yn gysylltiedig ag ymarfer clinigol, caiff y cofrestrydd ei adnabod fel nyrs a bydwraig.

**Tabl 4: Maes ymarfer 2016–2017**

| Maes ymarfer | Nifer yr atgyfeiriadau newydd | Canran o'r holl atgyfeiriadau |
|---|---|---|
| Nyrs | 108 | 44 |
| Bydwraig | 94 | 38 |
| Nyrs/Bydwraig | 43 | 18 |
| **Cyfanswm** | **245** | **100%** |

## Asesiad cychwynnol

Rydym yn sgrinio pob atgyfeiriad newydd i sefydlu a yw'r unigolyn yn nyrs neu'n fydwraig ar ein cofrestr, ac a yw'r pryderon a godwyd yn honiadau y gallwn ymchwilio iddynt. Yn dilyn yr asesiad cychwynnol hwn:

- Os gallwn gadarnhau bod y nyrs neu fydwraig gofrestredig a'r pryderon a godwyd yn ddigonol i awgrymu bod ei addasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol, byddwn yn cynnal ymchwiliad.
- Os na allwn gadarnhau bod nyrs neu fydwraig gofrestredig a/neu nad yw'r pryderon a godwyd yn ddigonol i awgrymu bod addasrwydd yr unigolyn i ymarfer yn ddiffygiol, byddwn yn cau'r achos.

**Yn 2016–2017, gwnaethom gau 3,556 o achosion ar y cam asesu cychwynnol. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd cau gyffredinol o 60 y cant ar gyfer 2016–2017, cynnydd ar y gyfradd cau gyffredinol o 51 y cant yn 2015–2016. Mae'r cynnydd yn y gyfradd cau gyffredinol yn adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau'r canlyniad sy'n amddiffyn y cyhoedd orau cyn gynted â phosibl a'n buddsoddiad mewn gwneud penderfyniadau ar gam**

Pan godir pryder gyda ni rydym yn chwilio ein cofrestr, drwy ddefnyddio amrywiadau o'r enw, ac yn gwneud ymholiadau gydag unrhyw berson neu sefydliad a all fod â gwybodaeth a fyddai'n helpu, er mwyn ceisio adnabod nyrs neu fydwraig gofrestredig o'r wybodaeth a ddarparwyd. Caiff penderfyniadau i gau achosion eu llofnodi gan gyfreithiwr. Os na allwn adnabod nyrs neu fydwraig, gallwn atgyfeirio'r pryder at sefydliad arall os bydd yn briodol gwneud hynny. Yn 2016–2017 gwnaethom 131 o atgyfeiriadau at sefydliadau eraill.

## Gweithredu ar fyrder i amddiffyn y cyhoedd

Mae gennym y pŵer i atal nyrsys a bydwragedd rhag ymarfer yn y DU os ydynt yn peri risg i ddiogelwch y cyhoedd. Os bydd diogelwch y cyhoedd mewn perygl uniongyrchol a difrifol, gallwn osod gorchymyn interim i gyfyngu ar y ffordd y gall nyrs neu fydwraig ymarfer neu ei hatal rhag ymarfer nes ein bod wedi ystyried ei hachos yn llawn.

Gellir gosod gorchymyn interim gan bwyllgor ymarfer ar unrhyw adeg yn ystod y broses addasrwydd i ymarfer os bydd gwybodaeth yn dod i law sy'n rhoi rheswm i ni gredu y gallai diogelwch y cyhoedd fod mewn perygl.

Mae rhagor o wybodaeth am ein proses gorchymyn interim ar ein gwefan: www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/hearings-and-outcomes/restrictions-sanctions/interim-orders/


## Perfformiad gorchymyn interim

Mae gosod gorchmynion interim yn ffordd bwysig i ni amddiffyn y cyhoedd. Ein nod yw gosod gorchmynion interim o fewn 28 diwrnod i dderbyn y pryder, mewn achosion lle mae angen gwneud hynny.

**I sicrhau diogelwch y cyhoedd, mae ein Cyngor wedi gosod targed i ni osod gorchmynion lle bo angen o fewn 28 diwrnod i dderbyn atgyfeiriad mewn 80 y cant o achosion. Yn 2016–2017 gwnaethom gyflawni'r targed hwn a rhagori arno yn barhaus, gan orffen y flwyddyn gyda chyfartaledd o 91 y cant.**

Mae'r siart nesaf yn dangos ein perfformiad yn 2016–2017 yn erbyn ein targed o 80 y cant.

**Siart 1: Perfformiad 12 mis treigl gorchmynion interim 2016-2017**




## Canlyniadau gorchmynion interim

Mae dau fath o orchymyn interim:

- Gorchmynion amodau ymarfer interim, sy'n cyfyngu ar y ffordd y gall nyrs neu fydwraig ymarfer dros dro
- Gorchmynion atal dros dro interim, sy'n atal nyrs neu fydwraig rhag ymarfer dros dro

Mae'r tabl isod yn dangos y math o orchmynion interim a osodwyd yn 2016–2017.

**Tabl 5: Gorchmynion interim a osodwyd 2016-2017**

| Penderfyniadau gorchmynion interim | Nifer y gorchmynion interim |
|---|---|
| Gorchymyn amodau ymarfer interim | 326 |
| Gorchymyn atal dros dro interim | 379 |
| **Cyfanswm** | **705** |

Mae'r tabl isod yn dangos y math o orchmynion interim a osodwyd yn 2016–2017 yn ôl math o gofrestriad.

**Tabl 6: Gorchmynion interim a osodwyd yn ôl math o gofrestriad 2016-2017**

| Math o gofrestriad | Gorchymyn amodau ymarfer interim | Gorchymyn atal dros dro interim |
|---|---|---|
| Nyrs | 289 | 352 |
| Bydwraig | 20 | 14 |
| Deuol | 17 | 13 |
| **Cyfanswm** | **326** | **379** |

**Tabl 7: Gorchmynion interim a osodwyd yn ôl maes ymarfer 2016-2017**

| Gorchymyn | Nyrs | Bydwraig | Nyrs/Bydwraig |
|---|---|---|---|
| Gorchymyn amodau ymarfer interim | 293 | 25 | 8 |
| Gorchymyn atal dros dro interim | 356 | 17 | 6 |
| **Cyfanswm** | **649** | **42** | **14** |

## Ymchwiliadau

Yn ystod ymchwiliad, rydym yn casglu'r dystiolaeth sydd ei hangen i wneud asesiad llawn o'r honiadau. Cynhelir y rhan fwyaf o ymchwiliadau gan ein timau ymchwilio mewnol. Cynhelir canran fach o ymchwiliadau gan gwmnïau cyfreithiol allanol.

Ar ddiwedd yr ymchwiliad, mae'r Archwilwyr Achos yn adolygu'r holl dystiolaeth ac yn penderfynu a ddylid atgyfeirio'r achos at wrandawiad ai peidio. Mae'n rhaid atgyfeirio achos at wrandawiad os bydd yn codi mater o addasrwydd i ymarfer a'i fod yn realistig y byddai panel yn penderfynu bod addasrwydd y nyrs neu fydwraig i ymarfer yn ddiffygiol.

Nid yw'n fuddiol i achosion fynd ymlaen at wrandawiad os nad yw'n realistig y byddai panel yn penderfynu bod addasrwydd y nyrs neu fydwraig i ymarfer yn ddiffygiol. O dan yr amgylchiadau hynny, bydd yr Archwilwyr Achos yn cau'r achos. Mae'r gyfres nesaf o dablau yn dangos penderfyniadau Archwilwyr Achos yn 2016–2017.

## Penderfyniadau Archwilwyr Achos

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm nifer y penderfyniadau Archwilwyr Achos yn 2016–2017.

**Tabl 8: Cyfanswm penderfyniadau Archwilwyr Achos 2016–2017**

| Penderfyniadau Archwilwyr Achos | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Atgyfeirio at y Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd (PYCh)/Iechyd (PI) | 1,539 |
| Dim achos i'w ateb | 1,170 |
| **Cyfanswm penderfyniadau Archwilwyr Achos** | **2,709** |

**Tabl 9: Nifer y penderfyniadau yn ôl math o gofrestriad 2016–2017**

| Math o gofrestriad | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Nyrs | 2,506 |
| Bydwraig | 64 |
| Deuol | 139 |
| **Cyfanswm** | **2,709** |

**Tabl 10: Penderfyniadau Archwilwyr Achos yn ôl maes ymarfer 2016–2017**

| Cosb | Nyrs | Bydwraig | Nyrs/Bydwraig |
|---|---|---|---|
| Dim achos i'w ateb | 1,110 | 44 | 16 |
| Atgyfeirio at PYCh | 1,374 | 54 | 38 |
| Atgyfeirio at PI | 70 | 2 | 1 |
| **Cyfanswm** | **2,554** | **100** | **55** |

## Penderfyniadau'r Pwyllgor Ymchwilio

Mae'r Pwyllgor Ymchwilio yn gyfrifol am wneud penderfyniadau mewn achosion lle na all yr Archwilwyr Achos gytuno ar ganlyniad. Nid atgyfeiriwyd unrhyw achosion at y Pwyllgor Ymchwilio i benderfynu arnynt yn 2016–2017.

## Adolygu penderfyniadau dim achos i'w ateb

Ers mis Mawrth 2015, rydym wedi gallu adolygu penderfyniadau i gau achos ar y cam ymchwilio heb droi at adolygiad barnwrol. Mae'r broses yn gweithio mewn dau gam:

- Rydym yn penderfynu a ddylid cynnal adolygiad ai peidio.
- Os byddwn yn cynnal adolygiad, rydym yn penderfynu a ddylid cynnal y penderfyniad gwreiddiol neu a oes angen penderfyniad newydd.

Gall ceisiadau am adolygiad ddod o'r NMC neu aelodau o'r cyhoedd. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y ceisiadau am adolygiad a'u canlyniadau rhwng Ebrill 2015 ac Ebrill 2017. Nid oes cydberthynas rhwng nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd a nifer y ceisiadau am adolygiad oherwydd nid yw pob adolygiad yn dod i gasgliad o fewn ei gyfnod adrodd.

**Tabl 11: Pŵer i adolygu penderfyniadau 2015–2016 a 2016–2017**

| Cam pŵer i adolygu | 2015–2016 | 2016–2017 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd | 90 | 69 |
| Cyfanswm nifer yr adolygiadau cam cyntaf ac ail gam a gynhaliwyd | 53 | 64 |
| Nifer a gaewyd ar y cam cyntaf | 37 | 57 |
| Cyfanswm yr adolygiadau ail gam a gwblhawyd lle penderfynodd y cofrestrydd bod angen penderfyniad newydd | 14 | 2 |
| Cyfanswm yr adolygiadau ail gam a gwblhawyd lle gwnaeth y cofrestrydd gadarnhau penderfyniad gwreiddiol yr Archwilydd Achos | 2 | 5 |

## Cofnodion twyllodrus neu anghywir ar y gofrestr 2016-2017

Mae'r Pwyllgor Ymchwilio yn parhau i ystyried honiadau ynghylch cofnodion twyllodrus neu anghywir ar y gofrestr. Bydd panel yn penderfynu a oes sail i'r honiad ac, os felly, yn cyfarwyddo'r Cofrestrydd i ddileu neu ddiwygio'r cofnod ar ein cofrestr.

Yn 2016–2017, cafwyd 36 o achosion o gofnodion twyllodrus neu anghywir lle y gorchmynnodd y panel y dylid tynnu enw'r person oddi ar ein cofrestr neu newid y cofnod. Yn 2015–2016 cafwyd 12 o achosion.

## Gwrandawiadau

Caiff y rhan fwyaf o achosion a atgyfeirir gan yr Archwilwyr Achos am ddyfarniad eu hystyried gan banel o un o'n pwyllgorau ymarfer:

- Y Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd
- Y Pwyllgor Iechyd

Y panel sy'n gyfrifol am ddod i benderfyniad terfynol ynghylch p'un a yw addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer yn ddiffygiol ar hyn o bryd a phenderfynu pa gosb sydd ei hangen i amddiffyn y cyhoedd, os o gwbl. Gwrandewir ar y rhan fwyaf o achosion mewn gwrandawiadau cyhoeddus y gall unrhyw un eu harsylwi. Cynhelir rhai gwrandawiadau – gan gynnwys pob achos o flaen y Pwyllgor Iechyd – yn breifat.

Mewn rhai achosion gall panel benderfynu ei bod yn well delio ag achos mewn cyfarfod sylweddol. Cynhelir cyfarfodydd yn breifat ac nid yw'r nyrs na'r fydwraig yn mynychu. Mae cofrestrydd yn cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ac mae'r panel yn ystyried yr achos ar y papurau yn unig. Bydd cyfarfodydd ond yn digwydd os bydd y panel yn cytuno fod hyn yn ffordd addas o ddelio ag achos, ac os na fydd y cofrestrydd wedi gofyn am wrandawiad llawn.

Rydym yn cyhoeddi'r holl benderfyniadau panel lle cyflwynwyd cosb mewn perthynas â chofrestriad nyrs neu fydwraig ar ein gwefan. Caiff cosbau hefyd eu nodi ar y gofrestr gyhoeddus.

Mae rhagor o wybodaeth am waith ein pwyllgorau ymarfer, gwybodaeth am sut i fynychu gwrandawiadau cyhoeddus, a chanlyniadau gwrandawiadau ar gael ar ein gwefan:

www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/hearings-and-outcomes/

## Canlyniadau gwrandawiadau

Mae'r tabl nesaf yn dangos cyfanswm nifer y canlyniadau gwrandawiadau a chyfarfodydd yn 2016–2017.

**Tabl 12: Canlyniadau gwrandawiadau yn 2016–2017**

| Cosb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gorchmynion dileu | 344 | 23 |
| Gorchmynion atal dros dro | 424 | 28 |
| Gorchmynion amodau ymarfer | 267 | 18 |
| Gorchmynion rhybudd | 164 | 11 |
| Addasrwydd i ymarfer diffygiol – dim cosb | 5 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,204** | **80%** |
| Ffeithiau heb eu profi | 31 | 2 |
| Addasrwydd i ymarfer ddim yn ddiffygiol | 278 | 18 |
| **Cyfanswm canlyniadau gwrandawiadau** | **1,513** | **100%** |

**Tabl 13: Canlyniadau gwrandawiadau yn ôl math o gofrestriad 2016–2017**

| Cosb | Nyrs | Bydwraig | Deuol |
|---|---|---|---|
| Dileu | 322 | 6 | 16 |
| Gorchymyn atal dros dro | 384 | 4 | 36 |
| Gorchymyn amodau ymarfer | 246 | 7 | 14 |
| Gorchymyn rhybudd | 153 | 5 | 6 |
| Addasrwydd i ymarfer diffygiol – dim cosb | 4 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **1,109** | **22** | **73** |
| Cymhwyster i ymarfer ddim yn ddiffygiol | 261 | 5 | 12 |
| Ffeithiau heb eu profi | 29 | 0 | 2 |
| **Cyfanswm canlyniadau gwrandawiadau** | **1,399** | **27** | **87** |

## Dileu gwirfoddol

Mae'r broses dileu gwirfoddol sy'n galluogi nyrs neu fydwraig i wneud cais i gael ei thynnu oddi ar y gofrestr yn barhaol heb wrandawiad cyhoeddus llawn. Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn mae'n rhaid i'r cofrestrydd wneud cais i'r cofrestrydd a fydd yn gwneud penderfyniad a yw dileu er budd y cyhoedd. Os caiff cais ei gymeradwyo, caiff y nyrs neu'r fydwraig ei rhestru ar ein cofrestr gyhoeddus gyda'r statws 'dilëwyd yn wirfoddol'. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y ceisiadau a dderbyniwyd a'r ceisiadau a gymeradwywyd yn 2016–2017.

**Tabl 14: Penderfyniadau dileu gwirfoddol**

| Blwyddyn | Nifer y ceisiadau | Ceisiadau a gymeradwywyd |
|---|---:|---:|
| 2013–2014 | 194 | 92 |
| 2014–2015 | 191 | 93 |
| 2015–2016 | 107 | 44 |
| 2016–2017 | 165 | 77 |

## Apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau

Gall nyrs neu fydwraig apelio yn erbyn y gosb a gyflwynwyd gan banel. Rhaid gwneud yr apêl o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y panel. Gwrandewir apeliadau yn yr Uchel Lys Cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr, y Llys Sesiwn yn yr Alban neu'r Uchel Lys Cyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon, yn dibynnu ar y wlad lle mae cyfeiriad y nyrs neu'r fydwraig. Gall yr Awdurdod Safonau Proffesiynol hefyd apelio os bydd o'r farn nad yw penderfyniad yn amddiffyn y cyhoedd. Ni all y person a atgyfeiriodd y pryder atom apelio yn erbyn penderfyniad panel, ond gall geisio adolygiad barnwrol os na fydd yn fodlon ar y broses a ddefnyddiwyd i ddod i benderfyniad. Mae gan y Llysoedd y pŵer i ddiystyru'r apêl, neu wrthdroi penderfyniad gwreiddiol y panel a gweithredu eu penderfyniadau eu hunain neu atgyfeirio'r achos yn ôl at yr NMC i'w ail-glywed gan banel newydd.

**Tabl 15: Apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau[1]**

| Canlyniadau apeliadau | 2015–2016 | 2016–2017 |
|---|---:|---:|
| Caniatawyd neu dychwelwyd at y Pwyllgor Ymarfer gan y Llys | 18 | 22 |
| Gwrthodwyd gan y Llys | 34 | 26 |
| **Cyfanswm** | **52** | **48** |

[1] Canlyniadau apeliadau lle y gwnaeth y Llys benderfyniad yn 2016–2017 yw'r rhain. Efallai bod rhai apeliadau wedi cael eu cyflwyno cyn 2016-2017.

## Adfer enw nyrs neu fydwraig i'r gofrestr

Rhaid i nyrs neu fydwraig sydd wedi cael ei dileu oddi ar y rhestr gan banel aros am bum mlynedd o leiaf cyn y gall wneud cais i adfer ei henw i'n cofrestr.

Cyn y gellir adfer ei henw, rhaid iddi fodloni panel o'r Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd neu'r Pwyllgor Iechyd ei bod yn addas i ymarfer. Os bydd y panel yn fodlon ei bod yn addas i ymarfer, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn rhaid i'r nyrs neu'r fydwraig ddilyn rhaglen dychwelyd i ymarfer cyn i'w henw gael ei adfer i'r gofrestr. Y broses drylwyr hon sy'n parhau i sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn cael eu hamddiffyn yn briodol rhag yr unigolion hynny y canfuwyd yn flaenorol bod eu haddasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol.


**Tabl 16: Canlyniadau ceisiadau adfer 2016–2017**

| Achosion adfer a ystyriwyd | 2015–2016 | 2016–2017 |
|---|---:|---:|
| Ceisiadau a dderbyniwyd | 18 | 5 |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 8 | 5 |
| **Cyfanswm** | **26** | **10** |

## Datrys achosion yn gyflym (DPA 15 mis)

**Roedd perfformiad yn erbyn y DPA 15 Mis o'r dechrau i'r diwedd yn parhau'n gyson ar 78 y cant yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn yn erbyn ein targed o 80 y cant, cyn gostwng ychydig erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd hyn yn arwydd o'n hymgais i ddatblygu achosion hŷn. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gwblhau achosion hŷn o fewn ein rheolaeth a chyflawni**

**Siart 2: Perfformiad cau achos 15 mis 2016–2017**



## Ffocws ar gyfer y dyfodol

### Adran 60

Yn dilyn penderfyniad gan weinidogion i ganiatáu newidiadau i'n deddfwriaeth, arweiniodd yr Adran Iechyd ymgynghoriad ar ddiwygiadau i Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (‘Y Gorchymyn’). Ym mis Hydref 2016, gwnaethom gwblhau ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos ar ddiwygiadau i'r Rheolau Addasrwydd i Ymarfer gan gynnwys cynnal digwyddiadau ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol ym mhob un o bedair gwlad y DU.

Daeth newidiadau i'r Gorchymyn i rym ar 31 Mawrth 2017, a bydd y newidiadau i'n Rheolau a fydd yn dod i rym yn hwyrach eleni yn galluogi mwy o hyblygrwydd i ni o ran ein dull o ddelio ag achosion addasrwydd i ymarfer, yn ein galluogi i ymateb mewn ffordd fwy cymesur i achosion llai difrifol ac yn dileu rhai cyfyngiadau / gofynion o ran sut rydym yn gweithredu ein swyddogaeth addasrwydd i ymarfer Bydd hyn yn ein helpu i gyflawni ein nod o gyrraedd y canlyniad sy'n diogelu budd y cyhoedd orau cyn gynted â phosibl.

Bydd y newidiadau hyn fel a ganlyn:

- **Pwerau Archwilwyr Achos i gyflwyno ymgymeriadau, rhybuddion a chyngor –** Bydd y newid hwn yn ein galluogi i ddileu achosion penodol heb fod angen gwrandawiad drwy gyflwyno rhybuddion, rhoi cyngor, neu gytuno ar ymgymeriadau gyda'r nyrs neu fydwraig.

- **Panel Addasrwydd i Ymarfer unigol –** Bydd y newid hwn yn galluogi un panel i wrando ar bob achos, iechyd ac ymddygiad a chymhwysedd. Gwrandewir ar achosion iechyd yn breifat o hyd, a bydd mesurau diogelu ar gyfer cosbau yn parhau.

- **Adolygiadau gorchymyn interim –** Bydd y newid hwn yn dileu'r gofyniad i gynnal adolygiad o orchymyn interim bob tri mis. Fodd bynnag, gall cofrestrydd ofyn am adolygiad ar unrhyw gam o hyd a gallwn drefnu adolygiad cynnar o achos os cawn wybodaeth newydd sy'n ein harwain i gredu nad yw'r cyhoedd yn cael ei amddiffyn yn ddigonol.

- **Dileu adolygiad gorchymyn sylweddol –** Bydd y newid hwn yn galluogi panel sy'n gosod gorchymyn sylweddol i gyfarwyddo nad yw'n angenrheidiol adolygu'r gorchymyn hwnnw cyn iddo ddod i ben. Bydd cofrestrydd dal yn gallu gofyn am adolygiad, fodd bynnag mae hyn yn peri risg y bydd panel adolygu yn ymestyn neu'n newid ei orchymyn.

- **Lleoliad gwrandawiadau –** Mae'r newid hwn yn dileu'r gofyniad i'r NMC gynnal gwrandawiad yn y wlad lle mae'r cofrestrydd yn byw. Nid yw'r NMC yn

ceisio'r newid hwn i achosi anghyfleuster i gofrestryddion, ond i gynnal y gwrandawiadau hynny lle nad yw cofrestrydd wedi ymateb neu nad yw'n bresennol yn un o'n canolfannau gwrandawiadau swyddogol lle gellir rheoli costau.

- **Estyniadau/apeliadau gorchymyn interim –** Mae'r newid hwn yn rhoi mwy o bŵer a hyblygrwydd pan fydd yr NMC yn ceisio estyniad. Yna bydd gan farnwr y gallu i newid y gorchymyn. Felly gallai cynrychiolwyr ddadlau o blaid gorchymyn amodau ymarfer yn hytrach nag atal dros dro.

- **Gofynion hysbysu –** Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i'r NMC rybuddio gweinyddiaethau pedair gwlad y DU pan fydd Archwilwyr Achos yn atgyfeirio achos at bwyllgor ymarfer. Bydd y newid hwn yn dileu'r gofyniad hwnnw.

Bydd y pwerau newydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ni wrth ddelio ag achosion, ac yn dileu cyfyngiadau beichus ar ein proses, gan eu gwneud yn fwy amserol, yn llai drud ac yn fwy cymesur.

## Pryderon Rheoleiddiol

Ar 3 Ebrill 2017 gwnaethom fabwysiadu dull rheoli achos newydd o'r enw 'Pryderon Rheoleiddiol.' Mae nodi'r pryder rheoleiddiol yn ein galluogi i gyfleu'r materion mewn achos ar gam cynt o lawer yn y broses. Mae hyn yn ei dro yn galluogi ymchwiliadau mwy cymesur â ffocws penodol, ac yn hyrwyddo ymgysylltu ystyrlon â chofrestryddion a chynrychiolwyr.

## Codio honiadau a lleoliadau cyflogwyr

Mae ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr yn ceisio adeiladu ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni a'i ddatblygu ymhellach i wneud y canlynol:

- Cefnogi dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a risg i reoleiddio.

- Datblygu'r gallu i ddeall y risgiau o ran ein hamcan i amddiffyn, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd.

Gwnaethom gyflawni dau brosiect yn 2016–2017 sydd wedi gwella ansawdd ein data. Yn gyntaf gwnaethom weithredu codau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol ar gyfer yr holl leoliadau cyflogwyr sydd wedi cael eu cymhwyso at ein holl achosion. Gwnaethom hefyd gyflwyno dull codio honiadau sy'n ein galluogi i ddeall y mathau o achosion sy'n cael eu hatgyfeirio atom. Gyda'i gilydd, bydd y data hyn yn ein galluogi i ddadansoddi materion Addasrwydd i Ymarfer yn ôl lleoliad gofal iechyd, lleoliad daearyddol a math o honiad a'n helpu i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddiol ac amddiffyn y cyhoedd yn well.

Ar 1 Ionawr 2017 gwnaethom ddechrau codio honiadau ar dri cham yn y broses Addasrwydd i Ymarfer: sgrinio, ymchwilio a dyfarnu ac ar dair lefel o fanylder cynyddol. Mae'r tabl isod yn rhannu datganiad cyntaf y wybodaeth honno ar y lefel gyntaf o fanylder. Yna gellir rhannu hyn ymhellach. Er enghraifft, gellir rhannu 'ymddygiad a thrais' yn gategorïau mwy manwl a chynnwys achosion o fwlio ac aflonyddu, gwahaniaethu, cam-drin geiriol ac ymddygiad treisgar. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn ystyried y lefel orau o ddadansoddi i'w chynnwys yn ein hadroddiadau yn y dyfodol.

**Tabl 17: Codio honiadau cam asesu sgrinio Lefel 1 rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2017**

| Honiad | Nifer yr honiadau a dderbyniwyd |
|---|---:|
| Ymddygiad neu drais | 44 |
| Materion cyfathrebu | 24 |
| Achos troseddol | 56 |
| Anonestrwydd | 40 |
| Materion cyflogaeth a chytundebol | 27 |
| Mynediad at wybodaeth | 5 |
| Ymchwiliadau gan gyrff eraill | 12 |
| Materion rheoli | 24 |
| Cysylltiedig â cherbydau modur | 26 |
| Cofrestru ac achosion NMC | 20 |
| Ddim yn cadw ffiniau proffesiynol clir | 11 |
| Honiadau eraill | 9 |
| Troseddau eraill | 14 |
| Gofal i gleifion | 136 |
| Rhagnodi a rheoli meddyginiaethau | 126 |
| Cadw cofnodion | 53 |
| Iechyd cofrestryddion | 58 |
| Troseddau rhywiol | 15 |
| Cyfryngau Cymdeithasol | 6 |
| **Cyfanswm** | **706** |

## Cynadleddau achos

Treialwyd telegynadledda rhwng ein cyfreithwyr a chyfreithwyr a oedd yn cynrychioli'r nyrs ym mhob achos lle roedd y Coleg Nyrsio Brenhinol yn gweithredu ym mis Rhagfyr 2016. Nod y peilot oedd gwella ymgysylltiad rhwng yr NMC, y nyrs a'i chynrychiolydd, ac osgoi problemau a all godi ar ddiwrnod cyntaf gwrandawiad a all weithiau gyfrannu at ohirio achosion neu wrando arnynt yn rhannol.

Drwy gydol y peilot hwn, rydym wedi bod yn cydweithio’n agos â staff o UNSAIN, Unite, y Coleg Nyrsio Brenhinol a Choleg Brenhinol y Bydwragedd i gyflwyno cynadleddau achos ar sail Dyfarnu ym mhob achos lle caiff y nyrs neu fydwraig ei chynrychioli. Yn ein barn ni, ni fydd y cynadleddau hyn ond o fudd i gyfradd amseru a chwblhau ein gwrandawiadau, ond byddant yn helpu i hwyluso'r hyn a all fod yn broses sy'n llawn straen i gofrestryddion, a meithrin cydberthnasau gwell â'n cydweithwyr o sefydliadau eraill.

ISBN 978-1-4741-4671-5